

LIDO PONTY, LIDO CENEDLAETHOL CYMRU

DYSGU'R LIDO
PECYN ADDYSGOL



RHONDDA CYNON TAF



HANES Y GLO
PECYN I ATHRAWON



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Bwriad y pecyn hwn yw helpu athrawon i drefnu ac arwain ymweliad â Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, mewn ffordd greadigol, hyderus, a llawn dychymyg. Mae'r awgrymiadau am weithgareddau'n hyblyg, ac rydyn ni'n annog athrawon i ddewis ac addasu'r deunyddiau fel eu bod yn bodloni eu hanghenion eu hunain o ran y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Dilynwch y camau syml hyn i drefnu ymweliad rhad ac am ddim:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf bum niwrnod gwaith ymlaen llaw.
- Ffoniwch Lido Ponty ar **0300 004 0000** i ofyn a yw'r dyddiad sydd gennych mewn golwg ar gael.
- Pan fyddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda Lido Ponty, cadarnhewch y trefniant trwy lenwi'r ffurflen fydd yn cael ei hanfon trwy e-bost.

Bwriedir i'r gweithgareddau bara tua 90 munud, a gallwch hefyd drefnu sesiwn sgiliau allweddol a sesiwn nofio (yn ystod tymor yr haf yn unig), neu ymweld â maes chwarae antur y Lido, sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Iechyd a Diogelwch

Athrawon ac arweinwyr grwpiau sy'n gyfrifol am gyflawni'r asesiadau risg cyn yr ymweliad, a hynny'n unol â chanllawiau eu hawdurdodau addysg lleol. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Lido Ponty'n cynnig cyngor penodol ar drefnu ymweliad, ac mae gwybodaeth am y safle ar gael ar gais.

Lido Ponty a'r Cwricwlwm

Rydyn ni wedi paratoi map y cwricwlwm ar gyfer pob gweithgaredd er mwyn cynorthwyo gwaith cynllunio'r athrawon. Mae'r map yn dangos sut y mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn berthnasol i'r deilliannau dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, a sut y maent yn cysylltu â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Dyluniwyd y rhaglen o weithgareddau gyda Chyfnod Allweddol 2 mewn golwg, ond mae yna gynnwys sy'n berthnasol i Gyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen hefyd, ac mae modd addasu'r gweithgareddau.

Cyn eich ymweliad

- Trafodwch beth y mae'r plant yn disgwyl ei weld yn Lido Ponty.
- Holwch a oes unrhyw un o'r plant wedi bod i Lido Ponty o'r blaen, ac os felly, gofynnwch beth wnaethon nhw yno?
- Crëwch siart cyfrif o'r gweithgareddau, a dangoswch iddyn nhw sut i greu siart bar gan ddefnyddio'r wybodaeth.

BYDD ANGEN DOD Â

Phensiliau neu
beniau ffelt

Papur Trasio

Copiau o fap
y llwybr

Copiau o gardiau
fflach y llwybr

Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, yw'r unig bwll nofio awyr agored gweithredol sydd ar ôl yng Nghymru. Ynghyd â Pharc Coffa Ynysangharad, mae Lido Ponty'n enghraifft eiconaidd o ddarpariaeth drefol a grëwyd at ddiibenion hamdden y cyhoedd rhwng y ddau ryfel. Bydd ymweliad yn helpu i ddatblygu sgiliau hanes ac ymholi pob cyfnod allweddol.

Hanes

Agorodd Lido Ponty am y tro cyntaf ar 30 Gorffennaf 1927. Hi oedd y pwll nofio pwrpasol cyntaf ym Mhontypridd, a chafodd ei ddylunio gan W. E. Lowe. Cyngor Dosbarth Trefol Pontypridd oedd yn rhedeg y pwll, a chafodd ei ariannu i raddau helaeth gan Gronfa Lles y Glowyr. Treth ar elw'r diwydiant glo oedd yn ariannu'r Gronfa Les. Câi'r arian ei ddefnyddio i wella cyfleoedd cymdeithasol ac addysgiadol yn y cymunedau o gwmpas y pyllau glo.

Cyn adeiladu'r Lido, byddai pobl yn nofio ac yn ymdrochi yn yr afonydd cyfagos, fel afon Taf neu afon Rhondda, neu yng Nghamlas Morgannwg. Ond roedd y rhain wedi cael eu llygru'n ddifrifol gan ddiwydiant, a doedden nhw ddim yn llefydd diogel i bobl nofio. Yn wir, bu farw llawer o bobl ifanc ar ôl nofio mewn afonydd brwnt, a chynyddodd y galw am adeiladu pyllau nofio pwrpasol.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, defnyddiodd Jenny James Lido Ponty wrth ymarfer i nofio ar draws y Sianel. Ar 16 Awst 1951, nofiodd Jenny o Ffrainc i Loegr mewn 13 awr a 55 munud. Hi oedd y person cyntaf o Gymru i gyflawni'r gamp.

Agorodd y Lido ar ei newydd wedd yn 2015. Cafodd nifer o nodweddion gwreiddiol y Lido eu hachub, gan gynnwys y giatiau tro a'r swyddfa docynnau.

Golwg ar y Lido

Cafodd y Lido gwreiddiol ei adeiladu yn yr arddull celfyddyd a chrefftau. Gallwch weld hyn yn rhannau hynaf yr adeilad ger y fynedfa flaen. Arddull art deco oedd ar yr ychwanegiadau a wnaed yn y 1930au, a gallwch weld esiamplau o hyn yn swyddfa docynnau ac ar ddrysau'r stordy. Mae nodweddion eraill yn cynnwys y wal allanol gyfylchog a'r teils coch ar y to sy'n rhoi golwg Canoldirol i'r adeilad. Y Rhufeiniaid a ysbrydolodd y teils, ac roedd hyn yn adlewyrchu poblogrwydd hanes y Rhufeiniaid ganol y 1920au yn sgil darganfyddiadau yng Nghaerllion.

Byddai'r cyntedd yn dal i fod yn weddol gyfarwydd i'r ymwelwyr gwreiddiol. Ar y cychwyn, roedd dau ddrws i gyrraedd ymyl y pwll, a byddai'r nofwyr cyffrous yn mynd i mewn trwy'r giatiau tro. Cafodd y rhain eu gwneud ym Manceinion a Salford yng ngogledd Lloegr. Ar y chwith, wrth fynd i mewn, roedd swyddfa'r rheolwr. Gofalwr y baddonau oedd ei deitl yn y dyddiau hynny.

Nodweddion gwreiddiol yw'r blychau newid sy'n rhedeg ar hyd rhan allanol y pwll, ac maen nhw'n debyg i'r blychau newid rydych chi'n dal i'w gweld ar draethau heddiw. Pan agorodd y Lido'n wreiddiol, roedd modd llogi tywelion a gwisgoedd nofio gwlan! Câi'r rhain eu golchi yng ngolchdy'r Lido.


Mae'r llinell wen yn marcio maint gwreiddiol y pwll. Roedd hi bron â bod yn 50 metr o hyd ac yn 35 metr o led, felly Lido Ponty oedd y pwll nofio awyr agored mwyaf ym Maes Glo'r De.



Ydych chi wedi bod i'r baddonau Rhufeinig yng Nghaerllion? Sut maen nhw'n cymharu?

Mae'r ffotograff yn y pecyn adnoddau yn y Lido.

HANES Y GLO GWEITHGAREDD 1 YSTAFELL DDOSBARTH




MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Mesur mathemategol
 - **Daeryddiaeth Sgiliau:** Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau **Ystod:** Dysgu am leoedd
 - **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol
 - **Gwyddoniaeth Sgiliau:** Gwybodaeth wyddonol, ymholi gwyddonol **Ystod:** Cyd-ddibyniaeth organebau
- Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg:** Llafaredd

AUR DU

Glöwr yw Mr Thomas. Fel llawer o bobl eraill ym Mhontypridd ddechrau'r ugeinfed ganrif, mae'n gweithio mewn pwll glo gan fwyngloddio glo yn ddwfn o dan y ddaear. Mae e am gael gwybod o ble mae glo'n dod. A allwch chi helpu Mr Thomas?

- **Sut cafodd glo ei wneud?**
- **Pam roedd e'n bwysig?**
- **Sut roedd pobl yn ei ddefnyddio?**



Y Cefndir

Roedd Pontypridd wrth galon diwydiant mwyngloddio glo De Cymru ers llawer dydd. Roedd sawl pwll glo yng nghyffiniau'r dref, ac roedd y diwydiant yn denu pobl o bedwar ban y byd i fyw yma. Roedd glo'n cael ei fwyngloddio i bweru diwydiant, fel tanwydd ar gyfer y llongau oedd yn cludo nwyddau ar draws y byd i gyd, ac i wresogi cartrefi.

Datblygu

Gan weithio mewn grwpiau (yn ôl yr angen) defnyddiwch y map o Bontypridd sydd yn y pecyn i ganfod sawl pwll glo yr oedd yna ym Mhontypridd. Marciwch eu lleoliadau gan ddefnyddio pensil neu ben ffelt a phapur trasio. Gwnewch siart gyfrif i gofnodi sawl un rydych wedi eu ffeindio.

Pam roedd cynifer o byllau glo ym Mhontypridd?

I ateb y cwestiwn hwn, mae angen gwybod o ble mae glo'n dod, a sut mae'n cael ei greu. *Wrth ddal y talpau o lo**, ceisiwch ddychmygu o beth mae'r glo wedi ei wneud.


*Defnyddiwch y ffotograffau sydd yn y pecyn**, a'r dirwedd naturiol, i roi cliwiau (e.e. coed ac afonydd).

Cannoedd o filiynau o flynyddoedd yn ôl, ymhell cyn amser y dinosoriaid, corstir oedd yr ardal hon i gyd, ac roedd planhigion anferth yn byw yn y gors. Pan fu farw'r planhigion mawr yma, suddodd eu gweddillion i'r gwaelod, a dros amser cawsant eu gorchuddio â baw. Wrth i'r Ddaear gynhesu a'r corstiroedd sychu, ffurfiodd haenau newydd o graig ar ben y gweddillion hyn. Dan bwysau trwm, yn raddol bach dros gannoedd o flynyddoedd, trodd y gweddillion yn lo. Mae nifer y coed sy'n tyfu yma heddiw yn ein hatgoffa am hyn.

Adolygu...

**Pam roedd Pontypridd yn lle mor bwysig ar gyfer mwyngloddio glo?
Sut rydych chi'n gwybod hyn?**

*Mae'r rhain yn y pecyn adnoddau yn y Lido



MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Mesur mathemategol, cyfathrebu mathemategol, datrys problemau
Ystod: Mesur ac arian
- **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol
Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg: Llafaredd


MYND I NOFIO

Mae Mrs Thomas am dretio ei merch, Dilys, trwy fynd â hi i Lido Ponty. Beth fydd y gost i'r ddwy ohonyn nhw fynd i nofio? Yn y 1920au, roedd arian yn cynnwys punnoedd, sylltau a cheiniogau. Roedd ugain swllt ym mhob punt, ac roedd deuddeg ceiniog ym mhob swllt.

Dyma'r prisiau i fynd i nofio yn Lido Ponty:

- Nofio i Oedolyn (Tocyn Tymor) : £1 1s 0c
- Nofio i Blentyn (Tocyn Tymor): £0 10s 6c
- Nofio i Oedolyn (Tocyn Diwrnod): £0 0s 6c
- Nofio i Blentyn (Tocyn Diwrnod): £0 0s 3c
- Gwyllo (Tocyn Diwrnod): £0 0s 3c

Oedolyn oedd unrhyw un dros 16 oed.




Mae gan Mrs Thomas un swllt yn ei phwrs.

Oes digon ganddi i brynu tocyn iddi hi a Dilys fynd i nofio?

Gan weithio mewn grwpiau, cyfrifwch beth fyddai'r gost i'ch grŵp chi fynd i nofio yn y 1920au.

Petai Mrs Thomas yn prynu tocyn tymor iddi hi a Dilys, beth fyddai cost hyn ym mhrisiau heddiw?



HANES Y GLO GWEITHGAREDD 3 PARC A LIDO



MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Datrys problemau mathemategol, cyfathrebu mathemategol
Ystod: Mesuriadau
 - **Daeryddiaeth Sgiliau:** Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau
 - **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol
- Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg:** Llafaredd

Mae Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, ym Mharc Coffa Ynysangharad. Agorodd y Parc ar 6 Awst 1923. Cofeb barhaol Pontypridd i'r bobl a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a rhyfeloedd ers hynny yw'r Parc, ac mae'n gartref i lawer o arteffactau hanesyddol.

Bydd y llwybr Hanes y Glo yn mynd â chi ar daith o amgylch Parc Coffa Ynysangharad, a chewch eich tywys gan yr arteffactau hanesyddol yma.

Cyn mynd allan i'r parc, ymrannwch yn ddau grŵp (os oes angen) a defnyddiwch y map i gynllunio'ch llwybr o un safle o ddiddordeb i'r nesaf gyda'ch gilydd. Defnyddiwch bensil neu ben ffelt a darluniwch llwybr i'w ddilyn o gwmpas y parc. Cofiwch ddangos i ba gyfeiriad rydych chi'n mynd.

Pa llwybr yw'r byrraf?

Pa llwybr yw'r hiraf?

A oes unrhyw beth ar goll o'r map?

Wrth i'ch grŵp deithio o gwmpas y parc, chwiliwch am yr adeiladau, y cerfluniau a'r safleoedd o ddiddordeb sydd i'w gweld ar y map. Pan fyddwch chi'n cyrraedd pob un, neu'n cyrraedd man lle gall y grŵp i gyd weld yr adeilad (sydd y tu allan i'r parc), casglwch garden fflach gan yr athro neu gan arweinydd y grŵp.

Mae gwybodaeth hanesyddol berthnasol ar y cardiau fflach yma, a'u nod yw arwain y drafodaeth ym mhob lleoliad.

Adolygu

Ar ôl dychwelyd i'r ystafell addysg yn Lido Ponty, cewch ddefnyddio'r ffotograff hanesyddol o'r parc i gymharu a chyferbynnu'r llun â'r hyn a welsoch chi.

A welsoch chi unrhyw beth yn y parc nad yw'n ymddangos ar y map?

Os felly, ble'r oedd e?

A allwch chi ychwanegu'r peth yma at y map o'r llwybr fel y gall pobl eraill ddod o hyd iddo?


Cofiwch liwio'r cardiau fflach a'r map o'r llwybr!





Athrawon ac arweinwyr grwpiau, nodwch:

Does dim angen mynd allan o'r parc i 'gasglu' yr holl gardiau fflach.

Gallwch weld tŵr Eglwys y Santes Catrin o sawl man yn y parc, a gallwch weld Pont William Edwards ac Amgueddfa Pontypridd o'r bont yn y parc sydd daflad carreg o brif fynedfa Lido Ponty.







CHWARAE'R LIDO

Mae'r maes chwarae antur yma yn gorwedd lle agorodd pwll padlo cyntaf Parc Coffa Ynysangharad ym 1923.

Mae'n cynnwys pwll glo, gorsaf reilffordd, a thwneli, i gyd yn dathlu gorffennol diwydiannol Pontypridd.

LIDO PLAY

This adventure playground marks the site of the paddling pool opened at Ynysangharad War Memorial Park in 1923.

There is a coal mine, a railway station, and tunnels, all of which celebrate Pontypridd's industrial past.



LIDO

Agorwyd Lido Ponty ym mis Gorffennaf 1927 yn wreiddiol i bobl leol gael mwynhau nofio, plymio, a pholo dŵr.

Cronfa Les y Glowyr a dalodd am ran fwyar costau. Roedd yr afonydd yn llawn llygredd o'r diwydiannau trwm yr adeg honno, a chynigiai'r Lido gyfle i bobl fynd i nofio mewn amgylchedd glân.


Mae adeiladwaith y Lido yn cynnwys elfennau Celf a Chrefft, ac elfennau Art Deco ac yn debyg i fila Rufeinig.

LIDO

Lido Ponty was originally opened in July 1927 for local people to enjoy swimming, diving, and water polo.

It was largely paid for by the Miner's Welfare Fund. When it opened the rivers were heavily polluted by industry and the Lido offered a chance to go swimming in a clean environment.

The Lido has some Arts and Crafts features, some Art Deco features, and looks a bit like a Roman villa.



AMGUEDDFA PONTYPRIDD

Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr oedd yr adeilad hwn yn wreiddiol. Fe'i codwyd ym 1861. Cafodd ei ailadeiladu ym 1910.

Tref lewyrchus oedd Pontypridd erbyn yr adeg honno, mewn cysylltiad â phedwar ban byd.

Mae hyn i'w weld yn nyluniad chwareus y gwydr lliw Art Nouveau a'r gwaith coed a phren yn yr Amgueddfa. Cafodd hwn ei wneud o binwydd a dyfai yn Rwsia a Gwlad Pwyl.

PONTYPRIDD MUSEUM

This building was originally the Tabernacle Chapel and was built in 1861. It was rebuilt in 1910, by which time Pontypridd had become a wealthy town and connected to the wider world.

This can be seen in the art nouveau stained glass and the woodwork in the Museum. This was made from pine trees that grew in Russia and Poland.



EGLWYS SANTES CATRIN

Agorwyd Eglwys Santes Catrin ar 7 Medi 1869. Er bod wyth capel ym Mhontypridd erbyn y pryd hwnnw, dyma oedd yr eglwys gyntaf. Costiodd yr eglwys newydd £4,800 i'w hadeiladu, sef tua £500,000 yn arian heddiw.





Daeth trenau arbennig ag ymwelwyr o Gaerdydd, Aberdâr, Cwm Rhondda, a Merthyr Tudful ar y diwrnod agoriadol. Bydd pobl o bell ac agos yn ymweld â'r eglwys hyd heddiw.

ST CATHERINE'S

St Catherine's Church opened on 7 September 1869. Although there were already eight chapels in Pontypridd by then, this was the first church. It cost £4,800 to build (about £0.5m today).

On the opening day, special trains brought visitors from Cardiff, Aberdare, the Rhondda, and Merthyr. People still visit the church from far and wide.





LLWYFAN Y BANDIAU

I bobl Oes Fictoria a'r Oes Edwardaidd, nid oedd y parc lleol yn gyflawn heb llwyfan y bandiau.

Deuai cerddorion i roi cyngherddau, neu ar gyfer achlysuron cyhoeddus.

Daeth y Frenhines Elisabeth II i Bontypridd ym 1953. Cafodd gyfle i gwrdd â thrigolion y fro, a chael tynnu'i llun yma ger y llwyfan.

BANDSTAND

The bandstand was a typical feature of Victorian and Edwardian parks.

Bandstands were used by musicians for public concerts and for public events.

In 1953, Queen Elizabeth II visited Pontypridd, met with local people, and had her photograph taken here at the bandstand.



YR HEN BONT

William Edwards a adeiladodd yr Hen Bont, ym 1756. Dyna oedd ei bedwerydd cynnig ar bontio Afon Taf. Adweinid y Bont fel 'y Bont Newydd' ers talwm. Dyna darddiad enw Saesneg cyntaf y dref, sef 'Newbridge'.

Diben y tri thwll yn neupen y bont oedd lleihau pwysau'r gwaith carreg.

Yr Hen Bont yw arwydd pennaf y dref, i'w thrigolion ac i ymwelwyr. Adeg ei hadeiladu, dyma oedd y bont un bwa hiraf yn y byd i gyd!

THE OLD BRIDGE

The Old Bridge was built in 1756 by William Edwards, his fourth attempt to bridge the river. It spans the River Taff and was once known as 'New Bridge' thereby giving Pontypridd its first English name – Newbridge.

The three holes on either side of the bridge help to reduce the weight of the stonework.

The Old Bridge is an icon of Pontypridd. In fact, when it was completed, the bridge was the longest single-span arch bridge in the world!



COFEB IEUAN AP IAGO AC IAGO AP IEUAN

Gwaith William Goscombe John yw'r cerfluniau hyn, sy'n portreadu Awen Cerdd ac Awen Barddoniaeth.

Codwyd y cerfluniau hyn ym 1930 er mwyn coffáu Ieuan ap Iago (Evan James) ac Iago ap Ieuan (James James).

Gwehyddion oedd y tad a mab yma, a hwy a gyfansoddodd 'Hen Wlad Fy Nhadau', ein Hanthem Genedlaethol.

EVAN JAMES/JAMES JAMES MEMORIAL

These statues sculpted by William Goscombe John are the 'muses', or human representations of music and poetry.

The statues were erected in 1930 to commemorate Evan and James James.

They were weavers and wrote the Welsh National Anthem, Hen Wlad Fy Nhadau.



COFEBION RHYFEL

Mae'r cofebion rhyfel yn coffáu'r rheiny a syrthiodd yn y ddau Ryfel Byd ac yn Rhyfel y Falkland.

Enwau'r rheiny a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf sydd ar y ddwy wal.


Parc Coffa Ynysangharad yw cofeb ryfel barhaol Pontypridd a'r Cylch.


WAR MEMORIALS

The war memorials commemorate those who died in the two world wars and the Falklands War.

The names on the two walls are those who died in the First World War.

Ynysangharad War Memorial Park is the permanent war memorial for Pontypridd.





FFYNNON GORDON LENOX

Codwyd y ffynnon hon er cof am Lewis Gordon Lenox,
un o'r teulu a redai Waith Cadwyni Brown Lenox.

Roedd yn byw am flynyddoedd lawer lle mae Parc Coffa
Ynysangharad bellach. Y fe roes y tir ar gyfer y cae
criced yn y Parc.

Roedd ei wraig, Alice, wrth ei bodd yn chwarae tenis.

GORDON LENOX FOUNTAIN

This fountain is dedicated to the memory of Lewis Gordon
Lenox, whose family ran the Brown Lenox Chainworks.

He lived here in Ynysangharad War Memorial Park. He provided
the land for the cricket ground in the park.

His wife, Alice, was a keen tennis player.

